

MINECRAFT

Eich Amgueddfa

national
museum
wales
amgueddfa
cymru

ADNODD I BLANT 6-11 OED



Y her:

Defnyddiwch eich dychymyg i adeiladu amgueddfa ddefnyddol yn Minecraft. Adeiladwch adeilad mawreddog a'i lenwi gyda'ch hoff wrthrychau. Gallwch chi ddewis unrhyw wrthrych o'n saith amgueddfa - deinosor, ceiniog Rufeinig neu dŷ o Sain Ffagan!



Rhannwch eich gwaith gyda ni
[@Amgueddfa_Learn](https://twitter.com/Amgueddfa_Learn)

MINECRAFT

Dim her un diwrnod yw hon.
Gallwch chi wneud ychydig bob dydd o adref.



Cam 1 – Lawrlwytho Minecraft

Gall plant yng Nghymru lawrlwytho Minecraft Education Edition am ddim – ond bydd yn rhaid mewngofnodi i'ch cyfrif Hwb. Wedi anghofio enw a chyfrinair eich cyfrif? Gofynnwch i'ch athro am help.

Sut i lawrlwytho Minecraft: education edition.

Fideo helpu <https://youtu.be/aZqLSI7YZSE>

Dolen <https://education.minecraft.net>



Cam 2 – Ymchwil

Ewch i wefan [Amgueddfa Cymru](#) i ddysgu mwy am y saith amgueddfa genedlaethol. Edrychwch ar yr adeiladau – allech chi ddefnyddio elfennau gwahanol yn eich amgueddfa chi? Edrychwch i weld beth sy'n cael eu dangos yn yr amgueddfeydd – pa rai fydddech chi'n eu dangos yn eich amgueddfa chi?

Dilynwch y ddolen hon am ragor o wybodaeth a rhestr o wefannau defnyddiol:

<https://hwb.gov.wales/repository/publishers/6817db18-b97b-45b2-90cd-41987b55bdb1>



Syniadau i sbarduno...

- Tŷ hanesyddol o Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru?·
- Ceiniogau, gemau, neu filwr o Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru?·
- Pwll glo, neu lowyr big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru?·
- Blanced o Amgueddfa Wlân Cymru?·
- Llechi, chwarelwyr neu fythynod Amgueddfa Lechi Cymru?·
- Gwaith celf enwog, trychfilod, carreg leuad neu ddeinosoriaid o Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd?·
- Trenau ac awyrennau cynnar o Amgueddfa genedlaethol y Glannau?



Gallwch chi chwilio casgliadau Amgueddfa Cymru ar-lein hefyd am ragor o syniadau:

<https://amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-lein/>

Cam 3 – Creu Amgueddfa Minecraft.

Os taw dyma'r tro cynta i chi chwarae Minecraft, mae llawer o help yma, neu ar You-Tube.

[Learning-to-play-Minecraft-Education-Edition](#) (yn Saesneg)

Gwnewch gynllun ar bapur gyntaf. Meddyliwch am faint a siâp yr adeilad a'r gwrthrychau. Gwnewch yn siŵr bod yr adeilad yn ddigon mawr i ddal y gwrthrychau!

Meddyliwch pa fath o amgueddfa rydych chi am ei hadeiladu. Pa ddeunyddiau ydych chi am eu defnyddio? Ydych chi am gopïo amgueddfa go iawn neu greu un ddychmygol?

Pa wrthrychau fyddwch chi'n eu dangos yn eich amgueddfa? Ydych chi am ddangos gwrthrychau go iawn, neu anifeiliaid a gwrthrychau dychmygol?



I ychwanegu
label amgueddfa
dewiswch
'Sign' o'r
'Inventory' a
theipio
disgrifiad.



Cam 4 – Rhannu eich Amgueddfa Minecraft.

Defnyddiwch feddalwedd ffilmio sgrîn am ddim, fel *Active presenter* 7, i ffilmio taith drwy'r amgueddfa. Mae sawl app am ddim all wneud hyn. Cofiwch ofyn caniatâd oedolyn cyn lawrlwytho unrhyw app neu feddalwedd.

Rhannwch eich gwaith gyda ni @Amgueddfa_Learn



Byddwn ni'n rhannu eich gwaith ar ein cyfrifon Twitter a Facebook gyda'r hashtag

#MinecraftMyMuseum

Ychwanegwch ddisgrifiad byr o ba wrthrychau sydd yn eich amgueddfa a pam.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch â ni @Amgueddfa_Learn

